Ecological Land Cooperative

Safle 6- Maesgwyn Isaf, Sir Gaerfyrddin

Lleoliad

Fferm 67 erw yw Maesgwyn Isaf, sydd wedi'i lleoli 1km i'r gorllewin o bentref Llanboidy yn Sir Gaerfyrddin. Mae tref Hendy-gwyn ar Daf (poblogaeth 1,792) yn sefyll 9km i'r dde ac mae Sanclêr (poblogaeth 2,995) 12km i'r de-ddwyrain. Mae gan y ddwy dref fynediad hawdd i'r A40. Mae gan Hendy-gwyn ar Daf orsaf drenau. Mae tref sirol Caerfyrddin (poblogaeth 187,900) 31km i'r de ddwyrain. Mae'r fferm yn daith 30 munud o'r traeth a Bryniau hudolus y Preseli.




Y tir

Ceir cymysgedd o dir pori a choetiroedd cymysg ym Maesgwyn Isaf, gyda phriddoedd lomog asidaidd y mae dŵr yn llifo trwyddynt yn rhwydd. Mae agwedd y tir yn amrywio. Mae'r caeau sy'n wynebu'r de ar fymryn o ogwydd a thir pori serth iawn sy'n wynebu'r de/de-ddwyrain. Mae'r rhan fwyaf o gaeau wedi'u hamgylchynu gan leiniau cysgodi a gwrychoedd brodorol sydd wedi'u sefydlu. Mae nant yn rhedeg ar hyd ffin ddeheuol y fferm. I gael disgrifiad o'r plotiau unigol sydd ar gael, gweler y map a'r tabl ar dudalennau 2 a 3. Gwahoddir ymgeiswyr i gymryd mwy nag un plot.

Tai allan

Ceir amrywiaeth o dai allan ym Maesgwyn Isaf. Mae hyn yn cynnwys stablau, siediau llaeth brics, ysguboriau mawr ffrâm ddur, a mannau addas ar gyfer gweithdai. Mae potensial ar gyfer cael cysylltiad trydan a dŵr yn y rhan fwyaf o'r tai allan.



Llety

Ar ôl cwblhau'r gwaith adnewyddu, bydd llety ar gyfer tair set o stiwardiaid fferm ar gael mewn unedau hunangynhaliol yn y ffermdy a'r anecs. Yn y cyfamser, rydym yn cynnig llety dros dro i ymgeiswyr o fewn cwrtil y ffermdy.


Faint fydd y plotiau yn eu costio?

Bydd y gost derfynol i ymgeiswyr yn cynnwys plotiau o dir, llety, gofod ac offer cyffredin ac unrhyw tai allan sydd arnynt eu hangen. Bydd y pris yn cael ei drafod fel rhan o'r ymholiadau. Bydd plotiau a llety'n cael eu cynnig ar sail rhentu diogel am y pum mlynedd gyntaf, gyda'r cyfle i brynu lesddaliad aml-genedlaeth ar ôl hyn, neu barhau i rentu. Fel cymdeithas budd cymunedol, rydym yn bwriadu sicrhau bod pris y rhent a'r lesddaliad mor fforddiadwy â phosibl er mwyn i gyfleoedd ym Maesgwyn Isaf fod mor hygyrch â phosibl.

Gwybodaeth am y plotiau

Cae	**Disgrifiad**	**Plotiau ar gael**	**Defnydd a awgrymir**
Highfield	7.4 erw. Cae ar fymryn o lethr yn wynebu'r de, wedi'i amgylchynu gan leiniau cysgodi. Mynediad uniongyrchol ym mhen uchaf a gwaelod y cae. Llwybr troed ym mhen uchaf y cae. Dŵr o'r prif gyflenwad ym mhen uchaf y cae.	2.29 erw 1.53 erw 1.51 erw 2.32 erw	Garddwriaeth
Northfield	7.5 erw. Llethr sy'n wynebu'r de. Mynediad drwy high field a stone field. Llwybr troed yn rhedeg hyd y gwrych. Dŵr o'r prif gyflenwad ym mhen uchaf y cae. Lleolir tyrbin gwynt y fferm yn y cae hwn.	1.76 erw 1.50 erw 1.67 erw 1.93 erw	Garddwriaeth / ffrwythau / tir pori silfo
Elven Gardens	3 erw. Llethr ysgafn yn wynebu'r de. Mae gorllewin y cae yn cynnwys twnnel polythen bach ac ardal llawr caled. Llain gysgodi ar ymyl ddwyreiniol y cae.	1.8 erw 1.88 erw	Garddwriaeth /tir pori silfo
Stonefield	2.2 erw. Yn gymharol wastad mewn mannau. Yn cynnwys cylch cerrig, coedlan fechan a man gwersylla ar gyfer defnydd cymunedol. Coed ffrwythau a chnau yma ac acw ar lethrau is.		Perllan / ar gyfer defnydd cymunedol
Sunrise Meadow	4.9 erw. Llethr sy'n wynebu tua'r dwyrain i lawr at goetir. Glaswelltir sydd llawn planhigion llyriad. Ffynnon naturiol ar waelod y llethr.	4.9 erw	Da byw ar raddfa fach / amaeth-goedwigaeth
Carter Hill	19.4 erw. Tir pori serth yn wynebu'r de/de-ddwyrain. Mynediad drwy gae'r tyrbin gwynt, a mynediad i gerddwyr drwy stone field. Ardal fwy gwastad tua chongl ddwyreiniol bellaf y cae. Taith gerdded fer i Lanboidy ar hyd yr hen drac.	12.5 erw 6.9 erw	Da byw ar raddfa fach
Coetir	18 erw. Mannau sy'n wynebu'r gorllewin a'r de ar ogwydd serth. Coetir yn cynnwys rhywogaethau amrywiol, cymysg eu hoedran - coed llydanddail aeddfed a lled-aeddfed. Nant ar waelod y llethr. Mynediad drwy iard y fferm a sunrise field ar drac parhaol.	18 erw	Cynnyrch coedwigaeth, crefftau coetir

Map 1: Enwau caeau ac mynedfeydd




Produced on Sep 27, 2023.
© Crown copyright and database right 2023 (licence number 100059532)

100 m
Scale 1:3725 (at A4)

N

Map 2: Plotiau ar gael



Produced on Sep 27, 2023.
© Crown copyright and database right 2023 (licence number 100059532)

100 m
Scale 1:3725 (at A4)

N



